**Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**
—
**Children, Young People and Education Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddPlant@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddPlant
0300 200 6565
—
**Senedd Cymru**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddChildren@senedd.wales
senedd.wales/SeneddChildren
0300 200 6565

Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg

Copi at: Delyth Jewell AS, Cadeirydd y Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol
Copi at: Paul Davies AS, Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Dyddiad: 9 Tachwedd 2021

Pwnc: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23

Annwyl Jeremy,

Hoffem gael gwybodaeth ysgrifenedig i gefnogi ein gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23. Mae'r atodiad i'r llythyr hwn yn nodi'n fanwl y wybodaeth yr hoffem ei chael.

Fel y gwyddoch, mae fy Nghlerc wedi trefnu gyda'ch swyddogion i chi fynychu cyfarfod o'r Pwyllgor ar 20 Ionawr 2022 i roi tystiolaeth lafar ynghylch y Gyllideb Ddrafft. Byddwn yn ddiolchgar o gael y wybodaeth ysgrifenedig erbyn 20 Rhagfyr 2021 fan bellaf.

Nodaf fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi'r Gyllideb Ddrafft ar 20 Rhagfyr. Cysylltwch â'm Clerc os ydych yn pryderu na fyddwch yn gallu anfon y wybodaeth erbyn y dyddiad cau arfaethedig o ystyried amserlen y gyllideb.

O ystyried y diddordeb a rennir ar draws pwyllgorau ynghylch rhai o'r meysydd a restrir yn yr atodiad i'r llythyr hwn, rwyf wedi anfon copi at Gadeiryddion Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol.

Yn gywir,

Jayne Bryant

Jayne Bryant AS
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

# Atodiad: Cais i Weinidog y Gymraeg ac Addysg ynghylch craffu ar Gyllideb Ddrafft 2022-23 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

## Ein dull o graffu ar y Gyllideb Ddrafft

Nod ein gwaith craffu ariannol yw sicrhau atebolrwydd, hyrwyddo gwell penderfyniadau a gwella gwerth am arian. Bydd yn dilyn pedair egwyddor allweddol, fel yr argymhellwyd gan y Pwyllgor Cyllid:

- Fforddiadwyedd: edrych ar y darlun mawr o ran cyfanswm y refeniw a gwariant, ac a oes cydbwysedd priodol rhyngddynt.
- Blaenoriaethu: a yw'r dyraniadau wedi'u rhannu rhwng gwahanol sectorau/rhaglenni mewn ffordd gydlynol y gellir ei chyfiawnhau.
- Gwerth am arian: yn y bôn, a yw cyrff cyhoeddus yn gwario eu dyraniadau yn dda – (h.y.) canlyniadau o ran economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Prosesau'r gyllideb: a ydynt yn effeithiol ac yn hygyrch ac a oes integreiddio rhwng cynlluniau corfforaethol a chynlluniau gwasanaeth, a rheolaeth perfformiad a rheolaeth ariannol.

## Meysydd trawsbynciol

### Tryloywder y cyflwyniad o'r gyllideb

Drwy gydol y Senedd flaenorol, pwysleisiodd ein Pwyllgor blaenorol bwysigrwydd cyflwyno'r Gyllideb Ddrafft yn dryloyw er mwyn galluogi gwaith craffu llawn a thrylwyr. Er mwyn parhau â'r dull hwn, gofynnwn am esboniad naratif tryloyw (a darlunio rhifol) ar y canlynol:

- gostyngiadau/dileu neu gynyddu/ychwanegu o ran meysydd penodol o'r Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a'r Gymraeg o'u cymharu â'r blynyddoedd ariannol blaenorol (e.e. lleihau grantiau neu grantiau'n peidio â bodoli'n gyfan gwbl/cyflwyno grantiau neu eu cynyddu);
- pa gyfran y mae unrhyw newidiadau o'r fath i'r swm cyffredinol a ddyrannwyd yn flaenorol yn ei chynrychioli; a

- lle'n union mae'r newid hwn yn cael ei wneud yn y Gyllideb Ddrafft, a ph'un a fydd cyllid yn cael ei ddychwelyd i/ei gymryd o gronfeydd wrth gefn canolog neu ei ddyrannu i/o linellau cyllideb eraill naill ai o fewn neu y tu allan i'r Prif Grŵp Gwariant.

## Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinell Gwariant yn y Gyllideb

- Gofynnwn am gael sylwadau ar bob un o'r Camau Gweithredu o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg a'r Gymraeg, gan gynnwys dadansoddiad ac eglurhad o newidiadau arwyddocaol ers Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 (Mehefin 2021).

- At hynny, gofynnwn am ddadansoddiad o'r Prif Grŵp Gwariant dangosol ar gyfer 2023-24 a'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ar gyfer 2022-23 (os yw ar gael) yn ôl Ardal Rhaglenni Gwariant (os yw'n berthnasol), Cam Gweithredu a'r Llinell Gwariant yn y Gyllideb, gyda dyraniadau Cyllideb Atodol Gyntaf 2021-22, rhagolygon alldro 2020-21, ac alldro terfynol 2020-21 i gyd wedi'u cynnwys.

- Os yw Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllideb llinell sylfaen ddiwygiedig at ddibenion cymharol, rydym yn gofyn i ddyraniadau gwirioneddol Ail Gyllideb Atodol 2021-22 gael eu cyflwyno ochr yn ochr â'r rhain yn ogystal ag esboniad o'r rhesymau dros ail-gyfrifo'r llinell sylfaen.

## Blaenoriaethau addysg a blaenoriaethau strategol eraill

- Gwybodaeth am sut mae'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn cyd-fynd â blaenoriaethau perthnasol ac amcanion allweddol Llywodraeth Cymru – ac yn cael ei flaenoriaethu yn ôl y rheini – gan gynnwys:

    - Asesiad gan y Gweinidog ynghylch i ba raddau y mae'n credu bod y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn cynnwys yr adnoddau sy'n angenrheidiol i gyflawni blaenoriaethau ac amcanion allweddol Llywodraeth Cymru.

    - Gwybodaeth am unrhyw drafodaethau sy'n mynd rhagddynt gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i gynyddu lefel yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer addysg, gan gynnwys cyllid ar gyfer cyllidebau craidd ysgolion drwy'r Setliad Llywodraeth Leol.

    - Manylion am sut mae dyraniadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg, ac o fewn iddo, yn cyd-fynd â'r Rhaglen Lywodraethu.

    - A yw'r Gweinidog, ac os felly sut, yn bwriadu targedu adnoddau i fynd i'r afael ag unrhyw themâu neu flaenoriaethau trawsbynciol ar draws y Prif Grŵp Gwariant yn gyffredinol, er enghraifft rheoli ac adfer o'r pandemig, mynd i'r afael ag effaith

negyddol anfantais ar ganlyniadau dysgwyr, rhoi effaith i hawliau plant a chefnogi dysgwyr gyda'u hiechyd corfforol, emosiynol a meddyliol (mae'r rhain i gyd yn flaenoriaethau i'n Pwyllgor).

- manylion yr asesiad a wnaed o'r gwerth am arian a fforddiadwyedd cyflawni pob un o'r blaenoriaethau a'r amcanion allweddol, a sut y bydd eu heffeithiolrwydd o ran cost yn cael ei fonitro.
- Manylion unrhyw ymarferion cost cyfle a gynhelir mewn perthynas â gweithgareddau sy’n cael eu blaenoriaethu wrth ddyrannu'r gyllideb.

## Hawliau plant ac ystyriaethau trawsbynciol eraill

Fel yr argymhellwyd yn adroddiadau ein Pwyllgor blaenorol ynghylch craffu ar y gyllideb a hawliau plant, rydym o’r farn y dylid cynnal Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y Gyllideb Ddrafft yn ei chyfanrwydd. O ran y Prif Grŵp Gwariant Addysg a’r Gymraeg yn benodol, gofynnwn am y canlynol:

- Gwybodaeth ynghylch pa ystyriaeth a roddwyd i hawliau plant, cydraddoldeb, cynaliadwyedd a’r Gymraeg o ran dyraniadau'r gyllideb.
- Copi o'r Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant a gynhaliwyd gan yr Adran Addysg i lywio'r dyraniadau yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a’r Gymraeg drafft ar gyfer 2022-23. Os na chynhaliwyd Asesiad penodol o’r Effaith ar Hawliau Plant, y rhesymau dros hyn a chopi o unrhyw asesiad effaith integredig arall yn ogystal â sicrwydd bod yr asesiad hwn yn dangos y dilynwyd y ddyletswydd o “roi sylw dyledus” i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Gwybodaeth am yr ystyriaeth a roddwyd i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 wrth wneud dyraniadau i linellau cyllideb o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a’r Gymraeg.
- manylion a/neu enghreifftiau o unrhyw newidiadau a wnaed i ddyraniadau cychwynnol o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a’r Gymraeg yn dilyn ystyriaethau o hawliau plant, cydraddoldeb, cynaliadwyedd, y Gymraeg, neu Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 o ganlyniad i asesiadau effaith, neu lle mae'r asesiadau hyn wedi cael dylanwad uniongyrchol ar bennu cyllidebau.

## Costau deddfwriaeth

- Manylion unrhyw ddyraniadau o fewn cyllideb 2022-23 a fwriadwyd ar gyfer gweithredu Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 a’r diwygiadau cysylltiedig mewn perthynas â chymwysterau.

- Manylion unrhyw ddyraniadau o fewn cyllideb 2022-23 a fwriadwyd ar gyfer gweithredu diwygiadau Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol, gan gynnwys unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â'r Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil.

- Diweddariad ar unrhyw gostau parhaus i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a’r Gymraeg o weithredu deddfwriaeth a basiwyd yn y Pedwerydd Cynulliad a’r Bumed Senedd, ac unrhyw oblygiadau ariannol i gyllideb 2022-23.

- Darpariaeth y gyllideb ar gyfer gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a'r Rhaglen Trawsnewid ADY ehangach.

- Gwybodaeth am effaith ariannol unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol a wneir yn Senedd y DU.

- Goblygiadau ariannol unrhyw is-ddeddfwriaeth perthnasol yn 2022-23.

## Effaith pandemig COVID-19

- Gwybodaeth am effaith y pandemig ar y Prif Grŵp Gwariant Addysg a’r Gymraeg yn 2021-22 a 2022-23 fel ei gilydd, gan gynnwys symudiadau i mewn ac allan o linellau cyllideb, y cyfraniad gros tuag at ymateb cyllidebol COVID-19 Llywodraeth Cymru - a derbyn ohono - yn ogystal ag effaith net hyn.

- Manylion a dadansoddiad o'r cyllid a ddyrannwyd ar gyfer ymateb y sector addysg i'r pandemig, a ddyfynnwyd fel £220 miliwn yn 2020-21 a £150 miliwn yn 2021-22, ynghyd ag unrhyw ddyraniad yn 2022-23.

- Gwybodaeth am argaeledd a defnydd y Gronfa Galedi Llywodraeth Leol COVID-19 at ddibenion addysg.

- Manylion y dyraniadau yn 2021-22 a 2022-23 i sefydliadau addysg bellach i gefnogi darpariaeth ar gyfer dysgwyr y mae cwblhad eu cwrs wedi cael ei ohirio, a nifer y dysgwyr unigryw yr effeithiwyd arnynt.

## Effaith Brexit

- Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn dilyn ymadawiad y DU â’r UE.

- Gwybodaeth am faint o arian yr UE y mae’r Prif Grŵp Gwariant Addysg ar gyfer 2021-22 wedi ei ddefnyddio, a'r swm y rhagwelir y bydd yn dibynnu arno yn 2022-23 ac at ba ddibenion y defnyddir yr arian.

Monitro'r gyllideb

- Gwybodaeth am y prosesau sydd ar waith ar gyfer monitro cyllidebau trwy gydol y flwyddyn, nodi diffygion a gwargedion posibl, a chymryd camau adferol neu ddyrannu arian ychwanegol i dalu am unrhyw ddiffygion, yn enwedig yn sgil amgylchiadau parhaus y pandemig.

- Manylion am unrhyw newidiadau i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ar gyfer 2021-22 y disgwylir eisoes yn yr Ail Gyllideb Atodol.

## Meysydd penodol

Cyllid ar gyfer cyllidebau ysgolion

- Esboniad o sut mae Llywodraeth Cymru wedi blaenoriaethu cyllid ar gyfer ysgolion yng Nghyllideb Ddrafft 2022-23 (yn y Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol a'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg) ac wedi ystyried adolygiad Sibieta o wariant ysgolion.

  Y wybodaeth ddiweddaraf am sut y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymateb i adolygiad Sibieta.

Cyllid ar gyfer gwella ysgolion

- Esboniad o sut mae Cyllideb Ddrafft 2022-23 yn cefnogi gwella ysgolion a chodi safonau addysg.

- Manylion dyraniadau Grant Gwella Ysgolion y Consortia Rhanbarthol yn 2021-22 a blynyddoedd blaenorol, ynghyd ag unrhyw ddyraniadau dangosol sydd ar gael ar gyfer 2022-23, wedi'u dadansoddi yn ôl consortiwm ac 'amcan' (neu bennawd arall, p'un bynnag sy'n berthnasol).

- Gwybodaeth am elfen Grant Gwella Addysg y Grant Gwella Ysgolion, a diweddariad ar sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod hyn yn cael ei ddefnyddio'n strategol, a gwerthusiad o'i effaith.

Lleihau effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol

- Gwybodaeth am sut mae adnoddau o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn cael eu defnyddio i fodloni ymrwymiad hirdymor Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol.

- Manylion darpariaeth y gyllideb ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion a chronfa Mynediad y Grant Datblygu Disgyblion.

- Pa drafodaethau y mae Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi'u cael gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol ynghylch adolygu'r meini prawf cymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim gyda'r bwriad o ymestyn yr hawl "cyn belled ag y mae adnoddau'n caniatáu" (fel y nodir yn Rhaglen Lywodraethu 2021).

- Amcangyfrif o gostau gwahanol fodelau cymhwysedd prydau ysgol am ddim, y gallai Llywodraeth Cymru fod yn eu hystyried fel rhan o'i hadolygiad o gymhwysedd i gael prydau ysgol am ddim, a sut mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu naill ai yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg neu'r Prif Grŵp Gwariant Cyllid a Llywodraeth Leol.

- Unrhyw gyllid arall yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg ar gyfer mentrau i fynd i'r afael â'r gydberthynas negyddol rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad, er enghraifft bod yn brin o fwyd yn ystod y gwyliau a phrosiectau cyfoethogi yn ystod gwyliau'r ysgol.

## Y Gweithlu Addysg

- Manylion dyraniadau'r gyllideb i ariannu Addysg Gychwynnol i Athrawon a dysgu proffesiynol ar gyfer athrawon presennol.

- Gwybodaeth am unrhyw gyllid a ddarperir gan Lywodraeth Cymru i Gyngor y Gweithlu Addysg.

  Manylion cyllid ar gyfer awdurdodau lleol tuag at dalu costau dyfarniad cyflog i athrawon ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22, gan gynnwys dadansoddiad rhwng y blynyddoedd ariannol 2021-22 a 2022-23 a'r mecanweithiau priodol a ddefnyddiwyd (p'un a ydynt yn grant uniongyrchol neu wedi'u hymgorffori yn y setliad llywodraeth leol).

## Diwygio'r cwricwlwm

- Gwybodaeth am gyllid i gefnogi'r paratoadau ar gyfer Cwricwlwm Cymru a'i roi ar waith, gan gynnwys dysgu proffesiynol ar gyfer y gweithlu.

## Iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc

- Gwybodaeth am y goblygiadau ariannol i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg yn 2022-23 o ran y gwaith i ymgorffori dull/system ysgol gyfan o ymdrin ag iechyd emosiynol a meddyliol, gan gynnwys unrhyw gyllid i gefnogi'r canllawiau statudol.

- Manylion sut mae unrhyw arian o'r Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn cael ei ddefnyddio i ategu gwaith mewn ysgolion yn y maes hwn.

- Manylion cyllid ar gyfer unrhyw fentrau ychwanegol, neu fentrau wedi'u teilwra, i gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc mewn lleoliadau addysg yn ystod pandemig COVID-19.

## Cefnogaeth ar gyfer dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr

- Manylion cyllid i gefnogi addysg dysgwyr o leiafrifoedd ethnig a dysgwyr o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr yn 2022-23 a sut mae hyn yn cael ei ddosbarthu.

## Anghenion Dysgu Ychwanegol

- Asesiad wedi'i ddiweddaru o'r pwysau sy'n wynebu awdurdodau lleol, ysgolion a cholegau wrth ddarparu'r ddarpariaeth Anghenion Addysgu Arbennig / Anghenion Dysgu Ychwanegol bresennol, effaith y cyllid ychwanegol yn y blynyddoedd blaenorol ac a fydd cyllid ychwanegol pellach yn cael ei ddarparu yn 2022-23.

- Gwybodaeth am y ddarpariaeth ariannol ar gyfer y Rhaglen Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol a rhoi Deddf 2018 ar waith.

- Y sefyllfa ddiweddaraf ar gyllid ar gyfer hyfforddi seicolegwyr addysg yng Nghymru a'r trefniant cyllid grant gyda Phrifysgol Caerdydd.

## Maint dosbarthiadau babanod

- Cadarnhad ynghylch a yw Lleihau Maint Dosbarthiadau Babanod yn parhau yn 2022-23 a gwerthusiad o effaith y cyllid ar gyfer hyn yn y Senedd flaenorol.

## Grant ysgolion bach a gwledig

Cadarnhad ynghylch a yw’r Grant Ysgolion Bach a Gwledig yn parhau yn 2022-23 a gwerthusiad o effaith cyllid ar gyfer hwn yn y Senedd flaenorol.

## Estyn

- Manylion dyraniad cyllideb Estyn ar gyfer 2022-23 o’r Prif Grŵp Gwariant Tai a Llywodraeth Leol, gan gynnwys pa drafodaethau diweddar a gynhaliwyd gyda'r arolygiaeth ar ei lefelau cyllid gofynnol a sut mae hyn yn cymharu â blynyddoedd blaenorol.

## Cymwysterau

- Manylion dyraniad y gyllideb i Gymwysterau Cymru yn 2022-23, gan gynnwys pa drafodaethau diweddar a gynhaliwyd gyda'r rheolydd o ran ei lefelau cyllido gofynnol, a sut mae hynny'n cymharu â blynyddoedd blaenorol.

- Diweddariad ar unrhyw gyllid ychwanegol y mae Cymwysterau Cymru yn ei gael i gefnogi ei waith ar ddiwygio cymwysterau yng nghyd-destun Cwricwlwm newydd Cymru, a'i raglen o adolygiadau sector o gymwysterau galwedigaethol.

- Gwybodaeth am unrhyw oblygiadau ariannol i Gymwysterau Cymru, neu unrhyw gyllidebau Llywodraeth Cymru, o effaith y pandemig ar ddyfarnu cymwysterau.

## Addysg cyfrwng Cymraeg

Manylion darpariaeth y gyllideb i gefnogi strategaeth addysg cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru a Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg awdurdodau lleol, yn ogystal â chyfraniad y sector addysg at gyrraedd targed Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg.

- Gwybodaeth am unrhyw gyllid a ddyrannwyd i gefnogi'r broses o wireddu'r continwwm sengl ar gyfer addysgu a dysgu'r Gymraeg, er enghraifft cynyddu capasiti'r gweithlu sy'n siarad Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg.

## Blynyddoedd Cynnar / Cyfnod Sylfaen

- Diweddariad ar y gwaith sy'n cael ei gynnal er mwyn adolygu'r berthynas rhwng cyfraddau cyllido gofal plant ar gyfer y rheini sy'n dair a phedair oed (o dan y cynnig Gofal Plant) ac addysg blynyddoedd cynnar (y Cyfnod Sylfaen) ar gyfer plant tair a phedair oed.

- Asesiad wedi'i ddiweddaru o sefyllfa ariannol y sector meithrinfeydd a ariennir nas cynhelir fel y mae'n berthnasol i'r Prif Grŵp Gwariant Addysg a'r Gymraeg a phortffolio Gweinidog y Gymraeg ac Addysg, gan gynnwys yng nghyd-destun cyflwyno'r cwricwlwm newydd.

## Gwaith ieuenctid

- Manylion am ddarpariaeth y gyllideb i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau ieuenctid gan gynnwys yng nghyd-destun adroddiad y Bwrdd Gwaith Ieuenctid Interim.

## Dysgu ar gyfer Troseddwyr

- Manylion y ddarpariaeth yn 2022-23 a sut mae hynny'n cymharu â blynyddoedd blaenorol.

## Addysg bellach, chweched dosbarth ac addysg i oedolion yn y gymuned

- Manylion dyraniadau cyflawn 2021/22 i golegau addysg bellach, i gynnwys symiau holl gydrannau'r dyraniad (h.y. amser llawn, rhan-amser, lwfans rhan-amser, lwfans amddifadedd, teneurwydd y boblogaeth a lwfansau cyfrwng Cymraeg, y lwfans cynnal a'r addasiad Dysgu Oedolion Cymru).

- Manylion newidiadau pellach i'r model ariannu addysg bellach (os o gwbl) o'r model a ddarparwyd i'r Pwyllgor ym mhapur y Llywodraeth flaenorol dyddiedig 08 Ion 2020 (ac a ddiweddarwyd gan y papur gan y Gweinidog Addysg ar y pryd ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 21 Ionawr 2021), a'r rheswm dros unrhyw newidiadau.

- Manylion unrhyw gyllid wedi'i neilltuo i sefydliadau addysg bellach neu Chweched Dosbarth y tu hwnt i'w grantiau craidd arferol.

- Manylion unrhyw gyllid a ddarperir yng nghyllideb 2022-23 at ddibenion cyflawni cydraddoldeb cyflog a/neu er mwyn bodloni unrhyw ddyfarniad cyflog i sefydliadau addysg bellach a Chweched Dosbarth, gan gynnwys esboniad ynghylch digonolrwydd y cyllid i fodloni'n llawn unrhyw ddyfarniad cyflog / cyfwerthedd cyflog y cytunwyd arno dros gyfnod y gyllideb hon.

- Manylion dyraniad cyflawn 2022-23 ar gyfer y Chweched Dosbarth wedi'i dadansoddi yn ôl pob awdurdod lleol.

- Copi o'r canllaw Rhagdybiaethau Cynllunio Rhagolygon Ariannol Addysg Bellach mwyaf diweddar a ddosbarthwyd i sefydliadau addysg bellach.

- Manylion y dyraniad ar gyfer dysgu oedolion yn y gymuned wedi'i dadansoddi yn ôl y cyrff perthnasol sy'n cael y cyllid yn uniongyrchol.

- Y rhestr lawn o werthoedd rhaglenni ar gyfer 2021-22 a 2022-23 a ddefnyddir wrth gyfrifo'r cyllid ar gyfer Addysg Bellach a'r Chweched Dosbarth.

## Addysg uwch, a chymorth ariannol ar gyfer myfyrwyr ôl-16

- Manylion dyraniad Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gan gynnwys manylion unrhyw gyllid wedi'i neilltuo, neu gyllid a fwriedir ar gyfer gweithgareddau penodol gan gynnwys iechyd meddwl a llesiant myfyrwyr.

- O ran diwygiadau Diamond: nodwch lefel ddisgwyliedig yr hyn a arbedwyd o ran cymorth ariannol i fyfyrwyr ar gyfer 2022-23 o'i gymharu â 2021-22, a chyfran y swm hwn a fydd yn cael ei ail-fuddsoddi yn ôl yn y sector addysg uwch fel rhan o'r "Difidend Diamond".

- Manylion unrhyw ddyraniad ar gyfer 2022-23 a fwriadwyd ar gyfer cyflwyno prentisiaethau gradd, ac a fwriedir ei ddefnyddio i recriwtio prentisiaid newydd neu i ddysgu prentisiaid presennol yn unig.

- Manylion unrhyw gyllid cyfalaf sydd i fod ar gael ar gyfer Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau i'w gosod arno gan Lywodraeth Cymru.

- Manylion unrhyw gronfeydd wrth gefn / cronfeydd nas dyrannwyd o fewn unrhyw un o'r Llinellau Gwariant yn y Gyllideb (BELs) ar gyfer 2022-23 sy'n gysylltiedig ag addysg drydyddol, gan gynnwys y BELs o fewn y Cam Gweithredu Cefnogi Dysgwyr Ôl-16; manylion am sut y mae'r cyllid yn cael ei ddyrannu / y gellir dyrannu'r cyllid; a manylion unrhyw ddefnydd ohono yn 2021-22.

- **Grantiau**: Tabl yn dangos alldro 2020-21, a'r gwariant a ragwelir dros y pedair blynedd ganlynol (wedi'i ddadansoddi yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU) ar gyfer:

  - Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr israddedig amser llawn
  - Grant Cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig amser llawn
  - Grant Ffioedd Dysgu i fyfyrwyr israddedig rhan-amser
  - Grant Cynhaliaeth i fyfyrwyr israddedig rhan-amser
  - Elfen grant cyllido cwrs Meistr
  - Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA)
  - Grant Dysgu Llywodraeth Cymru (Addysg Bellach)
  - Grantiau a lwfansau wedi'u targedu.

- **Darpariaeth benthyciadau**: Tabl yn dangos alldro 2020-21, a'r gwariant at ddibenion benthyciadau a ragwelir dros y pedair blynedd ganlynol (wedi'i ddadansoddi yn ôl myfyrwyr sy'n astudio yng Nghymru ac mewn mannau eraill yn y DU) ar gyfer:

  - Y gwariant a ragwelir at ddibenion benthyciadau ffioedd dysgu a chynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig amser llawn a'r gost a godir o ran cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau

- Y gwariant a ragwelir at ddibenion benthyciadau ffioedd dysgu a chynhaliaeth ar gyfer myfyrwyr israddedig rhan amser a’r gost a godir o ran cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau

- Y gwariant a ragwelir o ran benthyciad cyllido cwrs Meistr a’r gost a godir o ran cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau

- Y gwariant a ragwelir o ran benthyciad cyllido cwrs Doethuriaeth a’r gost a godir o ran cyllidebu a chyfrifyddu adnoddau.

## Prentisiaethau

- Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog Addysg a’r Gymraeg wedi’u cael gyda Gweinidog yr Economi i gysylltu a chydweithio ar ariannu'r ddarpariaeth sgiliau a chydlynu'r gwaith o ddarparu prentisiaethau?

## Darpariaeth addysg ôl-16 arall

- Manylion cyllido’r Cyfrif Dysgu Personol

- Manylion cyllideb y Gymraeg mewn Addysg gan gynnwys unrhyw ddyraniad ar gyfer y Coleg Cenedlaethol.

- Manylion unrhyw gyllid gan yr UE y disgwylir i Lywodraeth Cymru ei ddefnyddio yn ystod 2022-23 i sicrhau darpariaeth addysg drydyddol (h.y. o fewn Addysg Uwch, Addysg Bellach, Dysgu Oedolion yn y Gymuned, a’r Chweched Dosbarth, ac eithrio prentisiaethau).

## Cyllid cyfalaf ar gyfer seilwaith ysgolion a cholegau

- Gwybodaeth am ddarpariaeth y gyllideb ar gyfer y Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif a chynnydd y rhaglen hyd yma, gan gynnwys gwariant a nifer y prosiectau a gwblhawyd/a gymeradwywyd hyd yn hyn, wedi’i dadansoddi fel a ganlyn:

    - crynodeb o'r gwariant a nifer y prosiectau a gynhaliwyd / a gwblhawyd ym Mand A.

    - y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch Band B y rhaglen.

- Unrhyw oblygiadau sy’n deillio o’r pandemig i’r Rhaglen Ysgolion a Cholegau ar gyfer yr 21ain Ganrif, gan gynnwys unrhyw effaith ar gynnydd a chostau prosiectau.

- Goblygiadau cost ymrwymiad Llywodraeth Cymru i leihau ôl troed carbon prosiectau adeiladu ysgolion (fel yr amlinellwyd ar 2 Tachwedd 2021).

## Cyllid cyfalaf at ddibenion gofal plant

- Diweddariad ar gyllid cyfalaf o’r Prif Grŵp Gwariant Addysg a’r Gymraeg ar gyfer y Cynnig Gofal Plant ac unrhyw wybodaeth ynghylch sut yr effeithiwyd ar y rhain / y bydd y rhain yn cael eu heffeithio o ganlyniad i'r adolygiad o’r hawl i'r cynnig.

## Cyllid cyfalaf ar gyfer y fenter Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned

- Gwybodaeth am ddarpariaeth gyllidebol ar gyfer y grant Canolfannau Cymunedol a Chanolfannau Dysgu Cymunedol a diweddariad ar y cynnydd o ran cynyddu natur ystadau addysg sy'n canolbwyntio ar y gymuned.